Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pontrobert

**Meifod**
**Powys**
**SY22 6JN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pontrobert

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pontrobert |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 40 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | Nid oes dosbarth Meithrin yn yr ysgol |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 97.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/12/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/06/2023 |
| Mae Ysgol Pontrobert wedi ehangu'n sylweddol o ran niferoedd disgyblion yn ddiweddar. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn gwaith adeiladu yn yr ysgol sydd bellach yn cynnwys tri dosbarth. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pontrobert yn lle hapus, cartrefol a hynod weithgar lle mae holl gymuned yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r pennaeth, aelodau'r corff llywodraethol a'r holl staff yn cydweithio'n agos ac effeithiol er mwyn gwella'r darpariaeth er lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'u milltir sgwâr, ei hanes a'i thraddodiadau. Mae'r disgyblion yn arddangos balchder yn eu treftadaeth ac yn mwynhau dysgu am enwogion yr ardal, a'u gosod mewn cyd-destun ehangach.

Mae medrau llafar y disgyblion yn gryfder, ac mae medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae diwylliant cryf o hyrwyddo llafar wedi gwreiddio'n gadarn yn yr ysgol, gyda'r disgyblion yn mynegi eu hunain yn hyderus a gyda lefel dda o gywirdeb. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu i safon uchel, ac erbyn brig yr ysgol maent yn creu amrywiol ffurfiau yn aeddfed iawn. Mae eu medrau rhifedd yn gadarn ac maent yn defnyddio offer a meddalwedd digidol yn effeithiol i gefnogi eu gwaith.

Mae'r holl ddisgyblion hŷn yn aelodau o wahanol grwpiau disgyblion sy'n cefnogi eu cymheiriaid i ddeall pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg, a'u cefnogi i fagu hyder wrth ddefnyddio offer digidol. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae perthynas waith gefnogol iawn i'w gweld rhwng yr oedolion a'r disgyblion ac mae hyn yn adeiladu hyder y disgyblion yn llwyddiannus. Mae eu hymddygiad yn ardderchog, ac maent yn arddangos agweddau arbennig o gadarnhaol at eu dysgu. Maent yn awchu am wneud eu gorau, ac yn dyfalbarhau pan fydd tasgau'n eu herio.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y mae'r athrawon yn datblygu cyfleoedd i'r disgyblion ddethol amrywiol weithgareddau sy'n magu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Mae'r gwaith hwn yn fodd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau, ac awgrymu sut yr hoffent ddehongli'r tasgau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n unigolion medrus ac annibynnol.

Mae'r ysgol yn cynnig amrediad effeithiol o gefnogaeth i gynnal lles disgyblion, ac yn cynnal eu anghenion dysgu'n llwyddiannus.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd amserol i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu cwricwlwm sy'n annog annibyniaeth ac ymglymiad disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda'u medrau tua'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad, heblaw am eu medrau Cymraeg, sydd ddim mor ddatblygedig. Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn arbennig yn y Gymraeg. Maent yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg medrus yn fuan, ac yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol gyda'u cyfoedion a disgyblion o oedrannau eraill. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau corfforol a medrau modur mân cryfion, trwy amrediad o brofiadau yn y gwahanol ardaloedd dysgu, tu mewn a thu allan.

Mae medrau llafar y disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Maent yn siarad yn hyderus a chywir. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn egluro pwysigrwydd osgoi gormod o fwydydd brasterog gan nad ydynt mor iachus â ffrwythau a llysiau ffres. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn naturiol gan ddefnyddio elfennau o dafodiaith yr ardal wrth iddynt sgwrsio. Mae acen yr ardal i'w chlywed ar eu lleferydd. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i gyfleoedd cyfoethog i fynegi barn a chyflwyno eu syniadau, er enghraifft wrth rannu uchafbwyntiau'r flwyddyn gyda gweddill y dosbarth ym Mlwyddyn 4, 5 a 6.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn eiddgar ac yn trafod eu llyfrau'n frwdfrydig. Mae diwylliant cryf o foddhad mewn darllen wedi gwreiddio yn yr ysgol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2 a 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ystyr. Fel rhan o'u gwaith ar y chwe maes dysgu, mae'r disgyblion yn cywain gwybodaeth i greu ffeil o ffeithiau am y delynores Nansi Richards, Telynores Maldwyn, i gyd-fynd ag ymweliad yr Ŵyl Gerdd Dant â'r fro. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen testunau heriol yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn trafod eu llyfrau'n aeddfed am eu hoedran ac yn defnyddio uwch fedrau darllen i ddeall ystyr ehangach y testun. Maent yn cael boddhad mawr o'u llyfrau ac yn mwynhau gwneud cyflwyniadau am eu hoff lyfr cyfredol. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth gweddill y dosbarth o'r deunydd diweddaraf, ac o lyfrau allai apelio atyn nhw hefyd.

Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn cynnwys atalnodi syml ac yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, fel arfer. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 a 3

yn arddangos dychymyg byw wrth ysgrifennu dyddiadur Owain Glyndwr yn sgil ymweliad â'r senedd ym Machynlleth. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu i safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu gwybodaeth gefndirol am ymson Lady Macbeth yn nrama Shakespeare i greu eu hymson eu hunain, sy'n arddangos ymwybyddiaeth gref o sut i ddefnyddio effeithiau fel cwestiynau rhethregol i gyfoethogi'r testun.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn cymhwyso eu medrau rhif, ymwybyddiaeth o siâp, a thrin data yn hyderus a chynyddol annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau cyfoethog. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, mae'r disgyblion yn defnyddio diagram Venn i ddosbarthu gwahanol fwydydd yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2 a 3, mae llawer o ddisgyblion yn gwerthuso'r elw a wnaed o werthu cynnyrch yn y ffair Nadolig. Mae'r disgyblion hŷn yn cymharu data poblogaeth gwledydd Prydain yn ystod y Rhyfel Mawr, gan ystyried pa ganran o'r boblogaeth ymunodd â'r fyddin. Maent yn creu graffiau llinell manwl i gynrychioli glawiad a thymheredd Pontrobert yn ystod mis Ionawr.

Mae bron bob disgybl yn defnyddio amrediad cynyddol o offer digidol a meddalwedd yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau i gefnogi eu dysgu. Maent yn cymhwyso'u medrau digidol yn effeithiol er mwyn ymateb i wahanol dasgau. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio taenlenni'n fanwl a chywir wrth ymchwilio i ba ddeunyddiau sy'n amsugno dŵr orau. Maent yn creu gwefannau eu hunain sy'n cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol am blanhigion. Yna, mae disgyblion y dosbarthiadau iau yn defnyddio'r wybodaeth ar y gwefannau i greu eu llyfrynnau digidol eu hunain. Mae hyn yn amlygu defnydd pwrpasol o'r dechnoleg a chydweithio llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn effeithiol wrth ddatblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Maent yn creu darluniau gwreiddiol lliwgar a manwl ac yn efelychu gwaith artistiaid Cymreig a rhyngwladol yn gelfydd. Maent yn cyfansoddi dawnsfeydd mewn amrywiol ffurfiau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 yn creu symudiadau dawnsfeydd o wahanol gyfnodau mewn hanes.

Mae'r disgyblion yn canu'n soniarus gyda'i gilydd mewn gwasanaethau ysgol gyfan, gan arddangos dealltwriaeth dda iawn o draw a rhythm. Mae pob disgybl o Flwyddyn 3 hyd at Flwyddyn 6 yn dysgu chwarae offerynnau prês ac mae band yr ysgol yn cystadlu'n llwyddiannus ar lefel genedlaethol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mynegi'n glir fod oedolion yn eu trin yn deg a gyda pharch. Mae hyn yn cynnal eu lles yn llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at bob elfen o fywyd yr ysgol ac maent wrth eu boddau'n trafod eu gwaith gydag ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn gwrando ar gyflwyniadau yn astud ac yn mynegi barn yn hyderus, gan roi rhesymau dros eu safbwyntiau. Mae'r disgyblion hŷn yn trafod materion cyfoes yn bwrpasol, ac yn gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau, er enghraifft wrth drafod digwyddiadau a newyddion y dydd.

O’r cychwyn cyntaf, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn ac yn mwynhau gweithio yn yr awyr agored. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i ddatblygu medrau gwahanol chwaraeon yn ystod gwersi ymarfer corff ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae’r cyfleoedd rheolaidd i fynd i chwarae ym Mharc Eifion, ar dir yr ysgol, yn hyrwyddo eu lles yn hynod effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a chynrychioli’r ysgol mewn cystadlaethau fel unigolion ac mewn timau yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd deiet cytbwys i’w iechyd.

Mae’r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd trwy, er enghraifft, gynnal diwrnod heb drydan, a chyfnewid dillad a llyfrau, er mwyn eu hailddefnyddio. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o agweddau fel cynhesu byd eang a’i effaith ar greaduriaid dros y byd. Fel ymateb i hynny, maent wedi mabwysiadu arth wen ac mae’r ysgol yn cyfrannu tuag at gostau gofalu amdano.

Nodwedd ragorol o waith yr ysgol yw ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd cynnal eu lles eu hunain a gofalu’n garedig am eu ffrindiau. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol ac yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i drafod eu teimladau. Er enghraifft, yn ystod amser cylch yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, maent yn gyrru gwên ymlaen at y plentyn nesaf er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb yn hapus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwytnwch emosiynol trwy gyfleoedd i drafod eu teimladau ac mae hyn yn datblygu eu hyder a’u hunanddelwedd yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i drafod eu teimladau, er enghraifft wrth drafod sut i ymdopi pan maent yn teimlo’n ddig, weithiau.

Ar draws yr ysgol, mae’r disgyblion yn arddangos agweddau rhagorol tuag at eu dysgu. Maent yn cydweithio’n llwyddiannus ac yn awyddus i gyflawni tasgau sy’n eu herio i ddatblygu eu medrau. Maent yn dyfalbarhau’n arbennig o effeithiol, hyd yn oed pan fydd rhywbeth yn her wirioneddol iddynt. O oedran cynnar, maent yn cydweithio’n agos â disgyblion eraill, gan rannu syniadau er mwyn cyrraedd y nod. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2 a 3, mae llawer yn cydweithio’n llwyddiannus wrth ddatblygu dawns greadigol sy’n dehongli sut mae blodau’n cael eu peillio gan wenyn.

Mae’r disgyblion yn falch o’u cymuned, ei thraddodiadau a’i diwylliant. Er enghraifft, maent yn cystadlu’n llwyddiannus mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, gan gyrraedd safonau uchel. Maent yn arddel diwylliant a hanes Cymru ac yn mwynhau dysgu am eu treftadaeth yn lleol. Er enghraifft, maent yn siarad gyda balchder am yr emynyddes Ann Griffiths oedd â’i chartref nid nepell o Bontrobert.

Mae ymddygiad y disgyblion yn ardderchog. Maent yn ystyried teimladau plant eraill a’r oedolion sy’n gofalu amdanynt. Maent yn gwrtais a hwyliog gydag ymwelwyr ac wrth eu boddau’n rhannu syniadau am yr hyn maent yn ei ddysgu.

Mae pob disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn cynrychioli eu cyd-ddisgyblion fel aelodau o un o’r amrywiol grwpiau ‘llais y disgybl’ sy’n weithredol yn yr ysgol. Mae hyn yn magu eu hyder ac yn datblygu eu medrau cyfathrebu’n llwyddiannus. Mae aelodau’r grwpiau yn siarad yn fedrus am yr hyn y maent yn ei gyflawni. Er enghraifft, yn sgil gweithgareddau codi arian, penderfynwyd cyfrannu at elusen a buddsoddi cyfran mewn archebu tanc pysgod i’w osod yng nghyntedd yr ysgol i’r holl

ddisgyblion ei fwynhau. Mae aelodau’r grwpiau’n cymryd eu rolau o ddifri ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae’r dewiniaid digidol yn darparu gwybodaeth gyfredol i rieni a gofalwyr ynglŷn â phwysigrwydd cadw disgyblion yn ddiogel tra’n gweithio a chwarae ar y we.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm blaengar ac ystod o brofiadau cyffrous sy’n cefnogi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru’n llwyddiannus. Mae athrawon a disgyblion yn cydweithio i sicrhau cyd-destunau cyffrous sy’n canolbwyntio’n fanwl ar agweddau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion lywio cyfeiriad eu dysgu. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2 a 3, penderfynodd y disgyblion y byddai’n ddiddorol dysgu am hanes y Cymro enwog, David Davies, Llandinam, gan fod ganddynt ddiddordeb mewn dysgu am hanes pyllau glo Cymru. Mae’r athrawon yn hwyluso’r dysgu mewn modd meistrolgar i annog annibyniaeth y disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd iddynt weithio’n unigol, mewn parau a grwpiau ac yn defnyddio arbenigeddau athrawon yn ddeheuig i gyflwyno elfennau o’r cwricwlwm. Mae staff yn annog disgyblion i herio eu hunain wrth ddatblygu medrau cydweithio, dyfalbarhad a datblygu gwytnwch. Mae’r disgyblion yn deall bod gwneud camgymeriadau’n rhan o’r broses o wella’u gwaith ac yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae’r staff yn sicrhau ethos Cymreig cryf wrth osod disgwyliadau uchel ar y disgyblion i ddefnyddio’r iaith yn barhaus. Maent yn cael cyfleoedd cyfoethog i siarad Cymraeg ac mae bron bob un yn datblygu'n ddisgyblion dwyieithog hyderus gan ddangos brwdfrydedd heintus tuag at yr iaith. Mae diwylliant cryf o ddarllen yn treiddio drwy’r ysgol gyfan, gyda’r disgyblion yn manteisio’n effeithiol ar gyfleoedd niferus i drafod llyfrau, casglu ffeithiau a darllen yn Y Den Darllen. Mae cyfoeth o weithgareddau darllen cynnar yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 ac, erbyn brig yr ysgol, mae’r disgyblion yn holi ei gilydd am lyfrau ac yn trafod os yw testun penodol yn addas ar gyfer eu cyfoedion. Mae deunydd darllen cyfoethog yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cyfrannu’n effeithiol at gyfleoedd i’r disgyblion greu gwaith ysgrifenedig o ansawdd uchel.

Mae staff yn defnyddio’r ardaloedd dysgu atyniadol o gwmpas yr ysgol yn fwriadus i hyrwyddo dysgu creadigol ac ymarferol. Mae disgyblion yn cael eu hannog i weithio’n annibynnol ac yn gynhyrchiol ymhob dosbarth. Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol â’r disgyblion yn seiliedig ar barch a chwrteisi. Mae’r athrawon yn annog trafodaethau am bynciau llosg fel difrodi cynefinoedd anifeiliaid a’r rhyfel yn Wcrain ac yn dangos eu bod nhw’n gwerthfawrogi cyfraniadau’r disgyblion yn fawr.

Mae holi treiddgar y staff yn helpu disgyblion i adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn cadarnhau eu dealltwriaeth o dasgau. Maent yn defnyddio ystod o gwestiynau effeithiol sy’n arwain y disgyblion i ymateb yn ymestynnol a myfyrio ar eu dysgu. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 a 5 yn dewis yn ddeallus os ydynt am greu dyddiadur neu lythyr o safbwynt cymeriad mewn nofel.

Mae’r staff cymorth yn atgyfnerthu amcanion yr ysgol yn fedrus wrth gefnogi’r disgyblion gyda’u gwaith. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau pwrpasol i hybu cynnydd a lles y disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio teithiau addysgol pwrpasol ac ymweliadau preswyl gwerthfawr i atgyfnerthu’r dysgu. Mae ymweld â mannau pwysig lleol fel Dolwar Fach, sef cartref yr emynydd Ann Griffiths, yn gwella dealltwriaeth y disgyblion o’u cynefin. Fe lwyddodd y wibdaith i’r Ysgwrn, sef cartref Hedd Wyn, i ddyfnhau’r dysgu wrth drafod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae’r ysgol hefyd yn gwahodd ymwelwyr er mwyn hyrwyddo a chyfoethogi medrau creadigol a chorfforol y disgyblion.

Mae’r athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl gan ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth yn ddeallus wrth asesu’r gwaith. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddarllen eu gwaith ar goedd, gan roi adborth llafar adeiladol ar sut i ddatblygu’r gwaith ymhellach. Mae athrawon a disgyblion yn creu meini prawf llwyddiant cytûn ac mae’r disgyblion hynaf yn hyderus wrth lunio eu meini prawf eu hunain, a’u defnyddio i wirio eu cynnydd. Mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i’r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â’u dysgu am gyfnodau estynedig ac yn datblygu dealltwriaeth defnyddiol o ddysgu sut i ddysgu. Mae athrawon yn ymateb yn briodol i waith disgyblion mewn llyfrau, gan gynnig sylwadau defnyddiol ar gyfer gwella. Er hynny, nid oes cyfleoedd digon amserol i ddisgyblion ymateb i’r adborth er mwyn adeiladu ar eu gwaith da, a’i wella ymhellach.

Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plant, sy’n gymorth iddynt ddeall sut i’w cynorthwyo gartref. Mae’r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion yn ogystal â meysydd sydd angen iddynt eu datblygu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, groesawgar a bywiog sydd yn hyrwyddo lles, cyfle cyfartal ac ymddygiad da ar gyfer bob disgybl. Mae perthynas waith hyfryd rhwng staff a disgyblion sy’n canolbwyntio ar sicrhau bod bob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn cael mwynhad o’u holl brofiadau dysgu. O ganlyniad, mae agwedd disgyblion tuag at eu dysgu yn ganmoladwy ac mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion gan fagu eu hannibyniaeth yn effeithiol o oedran cynnar. Mae gweithdrefnau cadarn wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau lefelau presenoldeb da.

Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain ac ysgwyddo cyfrifoldebau. O ganlyniad, maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn cyflawni eu rolau gyda balchder ac ymroddiad. Er enghraifft, mae’r Criw Cymraeg yn mynd ati i annog rhieni i recordio clipiau fideo o’u hunain yn canu caneuon Cymraeg adnabyddus, gan rannu’r gwaith gorffenedig gyda chymuned yr ysgol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion a’u teuluoedd o bwysigrwydd mwynhau diwylliant cyfoes Cymraeg tu hwnt i safle’r ysgol.

Mae profiadau cyffrous i’r disgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau lleol. Er enghraifft, maent yn diddanu gwesteion mewn garddwest yn lleol, ac yn perfformio yng Ngŵyl Gerddoriaeth Gregynog a’r Ŵyl Gerdd Dant. Mae’r

profiadau hyn yn effeithiol wrth ddatblygu eu medrau creadigol, a'u hyder i berfformio'n gyhoeddus.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae bron pob un disgybl ag ADY yn gwneud cynnydd da o gymharu â'u mannau cychwyn. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn hynod ymroddgar ac yn diwallu ei chyfrifoldebau'n fedrus. Trwy ei harweiniad craff, mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a lles disgyblion ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac yn darparu ystod o raglenni cefnogi bwriadus sy'n targedu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ynghyd â chefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr, er enghraifft wrth adolygu cynnydd disgyblion ac adnabod pa gymorth fydd ei angen arnynt er mwyn cyrraedd y camau nesaf yn eu dysgu. Nodwedd effeithiol yn y ddarpariaeth yw'r berthynas rhwng yr ysgol a'r Cylch Meithrin sydd wedi ei leoli ar safle'r ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i rannu gwybodaeth bwysig am ddiddordebau ac anghenion disgyblion cyn iddynt gyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi staff i roi trefniadau ar waith a pharatoi'n amserol er mwyn diwallu anghenion disgyblion.

Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar eu hawliau nhw ac eraill. Er enghraifft, maent yn datblygu dealltwriaeth o werthoedd pwysig ac o faterion sensitif yn ymwneud â chadwraeth wrth iddynt drafod sut mae hela anghyfreithlon yn effeithio ar niferoedd y rhinoseros sy'n byw'n rhydd.

Mae amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion ac yn dathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn dysgu am enwau tai pentref Pontrobert a phwy oedd yn byw ynddynt ar wahanol gyfnodau mewn hanes. O ganlyniad, mae gan bron pob un disgybl ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned. Mae'r athrawon hefyd yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliannau eraill a gwerthfawrogi eu traddodiadau a'u diwylliant.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cwblhau gwaith ymchwil i ddarganfod y bwydydd mwyaf addas ar gyfer chwaraewyr pêl-droed sydd yn cystadlu yng Nghwpan y Byd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae eu dewisiadau nhw o ran deiet yn gallu effeithio ar eu hiechyd. Darperir ystod o gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu ffitrwydd a medrau corfforol y disgyblion drwy'r clwb chwaraeon ar ôl ysgol a chymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol fel pêl-droed a hoci.

Mae diwylliant diogelu cadarn wedi gwreiddio'n effeithiol yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod staff yn cael hyfforddiant pwrpasol. Mae'r corff llywodraethol yn diweddaru gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn cydweithio'n agos ag arweinwyr a staff.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar sicrhau'r cynnydd a'r safonau lles uchaf posibl ar gyfer bob disgybl. Mae hi wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel iawn o'i hun ac eraill ac mae hyn yn creu awyrgylch ble mae pawb yn uchelgeisiol ac yn dyheu am y gorau. Mae arweinwyr yn ymroi'n llwyr i ddarparu cwricwlwm sy'n ysgogi, cyffroi ac ennyn diddordeb y disgyblion yn llawn. Yn sgil hyn, mae ymdeimlad o bwrpas a bwrlwm yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn hynod effeithiol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol wrth eu gwaith a'u chwarae ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan staff medrus, ymroddgar ac egnïol. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol a phwrpasol. Mae trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae eu targedau'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Mae cyswllt amlwg rhwng y targedau hyn a gweithgareddau dysgu proffesiynol y staff. Er enghraifft, mae'r CADY wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i hyrwyddo ymwybyddiaeth staff ynghylch defnyddio rhaglenni cefnogi lles emosiynol gyda disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd a gydag ysgolion lleol wrth rannu arferion blaengar sy'n hybu datblygiad y Cwricwlwm i Gymru'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol sydd yn cynnwys amrediad eang o randdeiliaid, fel staff, llywodraethwyr a disgyblion. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ac maent yn dadansoddi'r dystiolaeth yn ofalus. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau pwrpasol sy'n rhoi sylw priodol i'r materion hyn ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu ymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd, gan ymateb i gerrig milltir penodol a gwerthuso dylanwad gwariant.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn eiriolwyr diflino dros yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith a chymuned yr ysgol. Maent yn chwarae rôl bwrpasol yng ngweithdrefnau gwella'r ysgol wrth ymweld yn rheolaidd ac ymgymryd â gweithgareddau monitro gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn craffu ar drefniadau'r ysgol ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel. Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad yr ysgol i'r corff llywodraethol. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr afael gadarn ar gryfderau'r ysgol ynghyd â gweledigaeth glir ynghylch ble mae angen gwneud datblygiadau i'r dyfodol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n briodol. Maent yn sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol i ymateb i'r cynnydd diweddar yn niferoedd y disgyblion. Maent yn monitro gwariant yn ofalus ac yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn briodol. Gwneir defnydd pwrpasol o grantiau, er enghraifft y Grant Datblygu Disgyblion, er mwyn darparu rhaglenni pwrpasol sydd yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen a hybu eu lles.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2023